



# Ysgolion Pentreuchaf

## 67. Polisi Datblygiad Staff

### Nod

Sicrhau datblygiad a hyder pob aelod o staff ( a thrwy hyn gynyddu eu mwynhâd o'u gwaith ) trwy hybu hyfforddiant i'w galluogi i gynnig addysg o'r safon uchaf posibl i'r plant.

### Amcanion

1. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gyfarwydd ac yn gyfforddus gydag athroniaeth polisiau sy'n berthnasol iddynt, gydag amcanion yr ysgol a'u bod yn yn cael cyfle i gyfrannu i'r broses o'u llunio a'u hadolygu.
2. Trefnu rhaglen HMS sy'n addas ac yn ateb anghenion pob aelod o'r staff dysgu.
3. Ceisio diwallu anghenion fel ag y nodir hwy yn y Cynllun Datblygu Ysgol gyda'r bwriad o ddylanwadu ar addysg y disgyblion ac ar safonau.
4. Sicrhau bod staff ategol yn cael cyfle i fynychu cyrsiau sy'n berthnasol i'w gwaith a bod myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor a myfyrwyr YTS yn cael cefnogaeth wrth ddilyn cwrs coleg.

### Canllawiau

1. Creu awyrgylch o gyd-drafod a chyd-gynllunio trwy annog cyfraniad yr unigolyn i'r tim.
2. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfle i drafod ei datblygiad proffesiynol â phennaeth/UDRh yr ysgol drwy'r cyfarfod personol blynyddol.
3. Sicrhau bod aelodau'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau drwy lunio a thrafod disgrifiadau swydd a rhoi cyfle iddynt ddatblygu ac ymestyn eu cyfraniad gan gynnwys derbyn cyfrifoldebau cwricwlaidd (staff dysgu). Adolygir pob Swydd Ddisgrifiad yn y cyfarfod personol blynyddol.
4. Meithrin parodrwydd staff i ymateb yn gadarnhaol i newid.
5. Trwy drafodaeth gonest a hunan arfarnu gofalus, canfod angenion hyfforddiant unigolion ac ysgol i bennu blaenoriaethau yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu ac i'w cyflwyno i'r Pwyllgor llywio HMS Dalgylchol neu i drefnu hyfforddiant mewnol.
6. Annog athrawon i ddilyn amrywiaeth eang o wahanol gyrsiau gan gynnwys cyrsiau estynedig ble bo hyn yn bosibl.
7. Isafswm o hyfforddiant sy'n bosibl trwy'r dyraniad cyllidol, felly bydd yr ysgol yn cefnogi cais unrhyw athrawes i fynychu cyrsiau ychwanegol ar gost ysgol (oni bai bod argyfwng ariannol dyrys ar y pryd).
8. Darparu hyfforddiant yn awtomatig lle bo'n berthnasol wrth gyflwyno anghenion addysgu newydd, anghenion statudol, dulliau gwaith newydd, anghenion y Cynulliad ac ar dechrau swydd newydd (Gweler y Polisi Sefydlu Athrawon Newydd).
9. Ceisio cyfleoedd i athrawon gael arsylwi ar athrawon mewn ysgolion eraill, ac athrawon yr ysgol hon drwy'r rhaglen Monitro gan Gydlynwyr pynciol.
10. Rhoi adborth o gyrsiau HMS i weddill staff yr ysgol a rheadru gwybodaeth i athrawon penodol yn ôl yr angen.
11. Sicrhau cyfleoedd i athrawon arwain a rheoli trafodaethau o fewn yr ysgol, y dalgylch a'r sir pan fo hynny'n bosibl.
12. Sicrhau fod gan athrawon (a staff eraill pan fo'n briodol) fewnbwn yn y broses o greu ac adolygu Polisiau'r ysgol.
13. Monitro ac arfarnu cyrsiau trwy gyfrwng Taflenni Arfarnu HMS.
14. Edrych yn gadarnhaol ar y broses Hunan Arfarnu a manteisio ar yr hyn sydd ganddo i'w gynnig.
15. Ceisio sicrhau cyfarfodydd anffurfiol i holl staff yr ysgol (gan gynnwys staff y gegin a'r gofawr) i adeiladu ymdeimlad o dîm sy'n cyd-weithio er lles yr ysgol.
16. Sicrhau fod pob aelod o staff dysgu yn cyflawni gofynion Deddf Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon.
17. Bydd pob aelod o staff yn derbyn cyfle cyfartal beth bynnag fo'u hil, rhyw neu greddo

### Casgliad

Drwy gynllunio a thrafodaethau gonest i sicrhau cyfraniad pob unigolyn, byddwn yn creu amgylchedd ffafriol i ddatblygiad personol a phroffesiynol pob aelod o'r staff ac yn sicrhau addysg o'r ansawdd orau posib ar gyfer yr holl ddisgyblion.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, **Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_